



GWERS 1- GWYBOD AM DYLAN THOMAS A DAN Y WENALLT

Nod y wers: Datblygu gwybodaeth am Dylan Thomas a *Dan y Wenallt* trwy wrando, meddwl, cofio a chrynhoi

Llafaredd

- ymateb i farn eraill yn gadarnhaol a phriodol o gael eu herio amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl

Darllen

- defnyddio ystod o strategaethau, e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl

Ysgrifennu

- dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol

RHAN 1

Trafodwch yn fras beth mae'r disgyblion yn ei wybod am Dylan Thomas. Gwyliwch y Cyflwyniad arno ar y pwynt pwer.

Taflen 1- cofio a chrynhoi 10 ffaith am Dylan Thomas (neu gosodwch rif gwahanol).

RHAN 2

Tynnwch sylw at deitl *Dan y Wenallt* ac esboniwch mai 'drama ar gyfer lleisiau' oedd y bwriad, ond peidiwch datgelu rhagor.

Dangoswch bwynt pwer o bosteri ar gyfer cynrychiadau o *Dan y Wenallt*, ac wrth edrych ar y rheini, trafodwch beth yw syniadau posib y dosbarth am gynnwys posib y ddrama.

Taflen 2 – 10 brawddeg allweddol am *Dan y Wenallt* (neu gosodwch rif gwahanol).



Wrth i'r dosbarth weithio, gallech chwarae rhan o'r Milk Wood Jazz Suite gan Stan Tracey <http://www.youtube.com/watch?v=QUNuxalrCis>

RHAN 3

Esboniwch fod trosiad o'r ddrama i'r Gymraeg ers 1967, o waith y Prifardd a'r Cyn-Archdderwydd T.James Jones. Gwrandewch ar lais Dylan Thomas yn darllen rhywfaint o'r ddrama yn Saesneg. <http://www.youtube.com/watch?v=c2a6zCR-yys>

TASG GREADIGOL/YMESTYNNOL